



4 Medi 2021

YMATEB COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU I ADRODDIAD AROLYGU AR Y CYD O GYFIAWNDER TROSEDDOL: 'NIWROAMRYWIAETH YN Y SYSTEM CYFIAWNDER TROSEDDOL – ADOLYGIAD O'R DYSTIOLAETH'

Mae'r adroddiad ar y cyd hwn yn trafod niwroamrywiaeth yn y system cyfiawnder troseddol, ac yn ystyried y dystiolaeth mewn ffordd ddefnyddiol ac yn cyflwyno argymhellion ar gyfer pob rhan o'r dirwedd cyfiawnder troseddol. Mae'n amlwg bod hwn yn faes lle mae angen gweithio'n gydlynol gyda phartneriaid i ddarparu'r canlyniadau gorau posibl ac rwy'n croesawu'r argymhellion yn yr adroddiad.

Mae'n braf gweld bod niwroamrywiaeth yn cael ei gydnabod fwyfwy fel maes y mae angen i wasanaethau cyhoeddus roi mwy o sylw iddo er mwyn diwallu anghenion pobl yn well. Mae'r adroddiad yn nodi, yn gywir ddigon, fod y data ar niwrowahaniaeth yn gyfyngedig ac yn anfoddhaol. Fodd bynnag, mae ein sefydliadau partner yn amcangyfrif bod 10% i 15% o boblogaeth y DU yn niwrowahanol, felly mae'n hanfodol ein bod yn gwneud llawer mwy i ddeall sut y dylid diwallu anghenion pobl niwrowahanol yn y system cyfiawnder troseddol.

Rydym i a'r Prif Gwnstabl eisoes wedi cydnabod bod niwroamrywiaeth yn faes y mae angen rhoi mwy o sylw iddo yn Heddlu De Cymru. Dyna pam y mae'n un o'r amcanion cydraddoldeb yn ein Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd (2019-2023). Rydym yn gwneud ymrwymiad ar y cyd yn y cynllun hwn i wella safon y gwasanaeth a ddarperir i bobl â chyflyrau niwroamrywiol ac i godi ymwybyddiaeth o niwroamrywiaeth yn fewnol. Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo ar yr amcan hwn dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac rydym yn parhau i asesu lle y gellir gwneud gwelliannau.

Mae'n galonogol ac yn ddefnyddiol cael gwybod bod yr adroddiad hwn yn gwneud argymhellion i sicrhau y caiff yr ymrwymadau hyn eu gwneud ym mhob rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Rwy'n hynod falch o weld argymhellion a fydd yn rhoi mwy o strwythur ac arweinyddiaeth, gan gynnwys strategaeth newydd, ar sut y caiff niwroamrywiaeth ei hystyried yn y system cyfiawnder troseddol ar raddfa genedlaethol, gan gynnwys yng Nghymru. Rwy'n sylwi y caiff Llywodraeth Cymru ei chynnwys yn yr argymhellion, sydd hefyd yn gadarnhaol ac yn galonogol.

Edrychaf ymlaen at weld canlyniadau'r arolygiad hwn a sut y cânt eu gwireddu mewn ffordd ymarferol. Rwy'n llwyr gefnogi'r gwaith o flaenoriaethu'r pwnc hwn a byddaf yn

Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru



parhau i weithio gyda'r Prif Gwnstabl yn Ne Cymru i sicrhau ein bod yn chwarae rhan hollbwysig yn hyn o beth.

Y Gwir Anrh Alun Michael
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
Ff: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Bridgend, CF31 3SU
t: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w: southwalescommissioner.org.uk

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
The Commissioner and his team welcomes correspondence in Welsh or English